

Rhif: WG41156



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rhesymoli'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant

Dyddiad cyhoeddi: 20 Tachwedd 2020
Yr hyn mae angen ei wneud: Ymatebion erbyn 04 Ionawr 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 i resymoli'r gweithdrefnau rheoleiddio sy'n goruchwyllo systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant.

Sut i ymateb

Gallwch anfon eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn drwy e-bost at:
enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig sicrhewch ei bod yn glir eich bod yn ymateb i'r ymgynghoriad ar:

“Systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant”

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig at:

Systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant
Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad ac yn cynnwys:

- eich enw
- eich swydd (os yw'n berthnasol)
- enw eich sefydliad (os yw'n berthnasol)
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post)
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at:

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth:

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 8144

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gcontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu dileu cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau ni o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall ni chedwir unrhyw ddata mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw amdanoch am fwy na thair blynedd.

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- cael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch a chael mynediad ato
- mynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu eich data
- (o dan rai amgylchiadau) gofyn i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) cael gafael ar eich data a'i aildefnyddio at eich dibenion eich hun ar draws gwasanaethau gwahanol
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef y rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o wybodaeth am y wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu i arfer eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Cathays Park
CARDIFF
CF10 3NQ
E-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cynigion	3
Yr Amserlen a'r Camau Nesaf	4

Cyflwyniad

Cefndir

1. Mae Rheoliadau Adeiladu 2010 (y Rheoliadau Adeiladu) yn rheoli mathau penodol o waith adeiladu, yn bennaf codi ac ymestyn adeiladau a darparu neu ymestyn rhai gwasanaethau neu ffitiadau, yn bennaf er mwyn sicrhau bod adeiladau'n bodloni safonau penodol ar gyfer iechyd, diogelwch, llesiant, cyfleustra a chynaliadwyedd.
2. Cyfrifoldeb y person sy'n gwneud y gwaith yw cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, ac mae'r system rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi cael ei bodloni. Rôl corff rheoli adeiladu, naill ai'r Awdurdod Lleol neu Arolygydd Cymeradwy'r sector preifat, yw gweithredu fel trydydd parti annibynnol i gynnal gwiriadau i helpu i sicrhau cydymffurfedd. Yn hytrach na gwiriadau rheoli adeiladu gan drydydd parti, caiff rhai gosodwyr sydd wedi eu cofrestru fel aelod cymwys o gynllun hunanardystio, ac yr aseswyd eu bod yn gymwys i wneud hynny, ardystio bod eu gwaith eu hunain yn cydymffurfio.
3. Mae Rheoliadau Adeiladu yn cael dylanwad mawr ar y ffordd mae ein hadeiladau'n cael eu hadeiladu a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i'n cymdeithas. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys gwahanol rannau, gyda phob rhan yn cyfeirio at ofyniad swyddogaethol ar wahân. Mae Rhan B o'r Rheoliadau Adeiladu yn ymdrin â materion diogelwch tân mewn adeiladau ac o'u cwmpas. Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer diogelwch tân, gan gynnwys ffyrdd o ddianc, lledaeniad tân, diogelwch strwythurau rhag tân a mynediad gan y gwasanaeth tân. Mae natur swyddogaethol y Rheoliadau Adeiladu, drwy gynnwys rheoliadau sy'n nodi'r gofyniad cyffredinol yn hytrach na rhagnodi sut y mae'n rhaid ei gyflawni, yn ceisio lleihau costau a hyrwyddo arloesi. Fodd bynnag, nodir rhai gofynion penodol na chaniateir iddynt amrywio.

Cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer systemau llethu tân

4. Cyn i'r Rheoliadau Adeiladu gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru yn 2011, roedd Gweinidogion Cymru o'r farn bod nifer y marwolaethau a'r anafiadau o danau mewn cartrefi yng Nghymru yn rhy uchel, ac felly gwnaethant edrych ar ffyrdd o leihau'r tebygolrwydd o farwolaethau ac anafiadau yn y dyfodol o dân mewn safleoedd preswyl newydd a rhai wedi eu haddasu yng Nghymru. Gan nad oedd y Rheoliadau Adeiladu wedi eu datganoli ar y pryd, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 (y Mesur) ym mis Chwefror 2011. Roedd y Mesur yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno rheoliadau i wneud systemau llethu tân awtomatig yn orfodol ym mhob preswylfa newydd a phreswylfa wedi'i haddasu. Mae systemau llethu tân awtomatig yn ffordd effeithlon ac effeithiol o helpu i ddiogelu bywyd ac eiddo.
5. Ar ôl i swyddogaethau mewn perthynas â'r pŵer i wneud Rheoliadau Adeiladu gael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru, cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2013 ar weithredu'r Mesur. Nododd yr ymgynghoriad hwn gynigion i weithredu'r Mesur drwy ddull a oedd yn gyfuniad o gychwyn y Mesur â chyflwyno darpariaethau ychwanegol yn y Rheoliadau Adeiladu.

6. Er ei fod yn cydnabod mai'r pwerau newydd dros Rheoliadau Adeiladu oedd y cyfrwng priodol i ddarparu ar gyfer y gofyniad i fod â systemau llethu tân awtomatig mewn preswylfeydd, roedd gan y Mesur broffil sylweddol fel un a oedd yn gosod y sylfaen ar gyfer ymyriad polisi pwysig. Felly yn 2014 cyflwynwyd y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn rhai adeiladau yng Nghymru drwy'r Mesur a'r Rheoliadau Adeiladu.

Y deddfwriaeth – y sefyllfa bresennol

7. Felly, mae'r gofyniad i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn preswylfeydd yn:
 - y Mesur; **yn ogystal â'r**
 - Rheoliadau Adeiladu.
8. Mae rheoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol darparu systemau llethu tân awtomatig mewn rhai adeiladau penodol fel yr amlinellir yn y rheoliad.
9. At ddibenion y Mesur, mae adran 6 yn diffinio'r preswylfeydd y mae systemau llethu tân awtomatig yn berthnasol iddynt.
10. Pan fydd y Rheoliadau Adeiladu yn gosod gofyniad i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn perthynas â gwaith adeiladu nid yw'r Mesur yn gymwys.
11. I raddau helaeth mae'r adeiladau a nodir yn y Mesur a'r Rheoliadau Adeiladu yr un fath. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys gofyniad i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal, ond dim ond yn y cartrefi gofal hynny a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl 18 oed neu'n hŷn.
12. I'r gwrthwyneb, mae'r Mesur yn cynnwys cartrefi gofal i oedolion a phlant gan fod y diffiniad o "*breswylfa*" yn adran 6 yn cynnwys y *ddau* (gweler paragraffau (c) ac (f) o'r diffiniad). Gan nad yw cartrefi gofal i blant wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu, dim ond drwy'r Mesur y gweithredir y gofynion i ddarparu systemau llethu tân awtomatig ar gyfer yr adeiladau hyn.
13. Mae hyn yn golygu bod y Rheoliadau Adeiladu yn darparu'r cyfrwng ar gyfer gosod systemau llethu tân awtomatig ym mhob adeilad newydd ac adeiladau wedi eu haddasu perthnasol, ac eithrio cartrefi gofal i blant o dan 18 oed.

Y rheswm dros y newid

14. Mae'r dull deuol hwn o ymdrin â chartrefi gofal (i oedolion a phlant) wedi arwain at ddryswch ymhlith rhanddeiliaid. Er mwyn egluro'r gofynion deddfwriaethol cyhoeddwyd llythyr cylchol at randdeiliaid priodol. <https://llyw.cymru/darparu-systemau-llethu-tan-awtomatig-i-gartrefi-gofal-ar-gyfer-plant-wgc-0082020>. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen, er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder, gynnwys o fewn y Rheoliadau Adeiladu yr holl ddarpariaethau sy'n gwneud systemau llethu tân awtomatig yn ofynnol.

Cynigion

15. Credwn fod y system bresennol wedi arwain at ddryswch mewn perthynas â'r ddarpariaeth. Cynigir bod cartrefi gofal i blant yn cael eu cynnwys yn rheoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu. Byddai hyn yn darparu cydraddoldeb rhwng y cartrefi gofal hyn a chartrefi gofal i oedolion lle mae'r Rheoliadau Adeiladu eisoes yn gwneud systemau llethu tân awtomatig yn ofynnol.
16. Gan fod systemau llethu tân awtomatig yn ofyniad mewn cartrefi gofal i blant drwy'r Mesur ar hyn o bryd, dim ond fel dull o 'gadw tŷ' y mae'r diwygiad i ddarparu'r gofyniad drwy'r Rheoliadau Adeiladu yn gweithredu er mwyn rhesymoli'r gyfraith. Mae ganddo hefyd y fantais o weithredu prosesau a gweithdrefnau'r Rheoliadau Adeiladu i gartrefi gofal i blant. Bydd y rhesymoli hwn yn dileu dryswch drwy sicrhau bod un darn o ddeddfwriaeth yn ymdrin â phob adeilad o fewn cwmpas y gofynion sy'n ymwneud â systemau llethu tân awtomatig.

Cwestiwn 1

C1	A ydych o blaid y cynnig i symud y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant i Rheoliadau Adeiladu 2010?	Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr
		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Rhowch y rhesymau dros eich ateb:

Asesiad o'r effeithiau

17. Mae systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant eisoes yn ofynnol yn ôl y gyfraith (drwy'r Mesur) a bydd y diwygiad i'r Rheoliadau Adeiladu yn rhesymoli'r gyfraith. Felly, nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw ddatblygiad neu gostau adeiladu ychwanegol yn gysylltiedig â'r newid.
18. Bydd y rhesymoli hwn yn gwella hygyrchedd y gyfraith drwy sicrhau y caiff pob math o adeilad o fewn cwmpas y gofynion sy'n ymwneud â systemau llethu tân awtomatig eu cwmpasu mewn un darn o ddeddfwriaeth.

Costau ymgwyfarwyddo

19. Bydd rhai costau amser i ddatblygwyr wrth iddynt ymgwyfarwyddo â'r rheoliadau newydd. Mae'r costau hyn yn cynnwys yr amser a gymerir i ddarllen y rheoliadau ac i lunio cynllun i ymateb iddynt. Er bod ansicrwydd ynghylch faint yn union o amser y bydd hyn yn ei gymryd, ystyrir bod nifer y staff yng nghangen 'ddatblygu' y diwydiannau yr effeithir arnynt gryn dipyn yn is na nifer y staff y nodwyd eu bod yn gweithio o fewn y diwydiannau hynny. E.e. byddai staff y nodwyd eu bod yn gweithio yn y sector gofal plant yn cynnwys yr holl weithwyr a gyflogir yn y lleoliad gofal, tra bydd yr effaith yn gysylltiedig â'r bobl sy'n datblygu adeiladau yn y sector

hwn. Ystyrir mai ffigur mwy perthnasol fyddai lefel y datblygu blynyddol yn y maes hwn, gan fod hyn yn darparu asesiad o weithgarwch y farchnad. Nifer cyfartalog y cofrestriadau newydd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2017 a 2020 yw 23 y flwyddyn

20. Mae defnyddio data cyflog fesul awr ASHE ar gyfer 'Rheolwyr eiddo, tai ac ystadau' yn rhoi cyfradd o £22.35¹. Amcangyfrifir y gost fesul busnes ar sail un gost sengl o ddwy awr i ddau aelod o staff ar gost o £89.4 fesul datblygiad newydd, gan ddarparu cost gyffredinol o £2,056 y flwyddyn. Bydd y gost hon yn gostwng dros gyfnod o dair blynedd wrth i'r diwydiant ddod yn ymwybodol o'r newidiadau.
21. Bydd y gostyngiad yn y costau sy'n gysylltiedig â deall cymhlethdod y sefyllfa bresennol yn gwneud iawn am y costau ymglyfarwyddo sy'n gysylltiedig â deall y diwygiad i'r Rheoliadau Adeiladu. Ar hyn o bryd, mae cymhlethdod y berthynas rhwng y Mesur a'r Rheoliadau Adeiladu yn arwain at gost i'r diwydiant. Gwelwyd tystiolaeth o ddryswch yn y rheoliadau adeiladu a'r sectorau gofal ynghylch y gofynion. Mae dileu'r dryswch hwn yn debygol o arwain at leihau costau ymglyfarwyddo. Mae'r tybiaethau sylfaenol a ddarperir uchod dros y lefelau datblygu disgwylidig a chostau staff yr un fath. Ystyrir mai £2,056 y flwyddyn yw'r gost.
22. Mae hyn yn arwain at effaith niwtral o ran cost.

Cwestiwn 2

	A ydych yn cytuno na ddylai fod unrhyw oblygiadau negyddol o ran cost o ganlyniad i symud y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant o'r Mesur i Reoliadau Adeiladu 2010?	Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr
C2		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Os na, eglurwch a rhowch dystiolaeth o'r hyn rydych yn eu hystyried yn gostau nas nodwyd.				

Yr Amserlen a'r Camau Nesaf

23. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 04 Ionawr 2021. Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn fyrrach na chyfnod ymgynghori safonol Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod cyfnod byrrach yn briodol am y rhesymau canlynol:
- Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar newidiadau sy'n ceisio rhesymoli'r ddeddfwriaeth ac felly maent yn fater o 'gadw tŷ'. Ni chynigir unrhyw newid mewn polisi ynghylch yr angen am systemau atal tân awtomatig na manylebau systemau o'r fath – ac nid ydym yn ymgynghori ynghylch yn materion hynny.

¹<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/occupation4digitsoc2010as/etable14> ASHE tabl 14.6a, codir cyfraddau cyflog 30% i adlewyrchu gorbenion.

- Mae'r ymgynghoriad wedi'i dargedu at gynulleidfa benodol a chyfyngedig iawn y gallai'r newid effeithio arni, sef darparwyr cyfleusterau gofal a chyrff rheoli adeiladu. Mae'r cyrff hyn wedi cael gwybod am yr ymgynghoriad. Mae rhanddeiliaid eraill yn annhebygol o fod â diddordeb yn y mater penodol hwn.
24. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dadansoddi a bydd Ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn.